| | |
|---|---|
| Adroddiad i’r: | Cabinet |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 29 Mawrth 2016 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cyng. David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus |
| Awdur yr Adroddiad: | Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| Teitl: | **Dirwyn Cydbwyllgor Taith i Ben** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Gofyn am gefnogaeth y Cabinet i roi diwedd a dirwyn y Cydbwyllgor i ben ac ystyried trefniadau olynol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Er mwyn cefnogi penderfyniad y Cydbwyllgor i ddirwyn i ben.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai’r Cabinet gymeradwyo penderfyniad Cydbwyllgor Taith i derfynu ei swyddogaeth, o 29 Medi, 2015.

Bod y Cabinet yn cefnogi sefydlu Fforwm Ymgynghorol ar Gludiant o dan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynnwys yr Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd fel cynrychiolydd Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Yn 2007, ar y cyd ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru, cytunodd y Cabinet i gefnogi Cydbwyllgor Taith i symud ymlaen â chydweithrediad cludiant rhanbarthol. Roedd yn un o saith consortiwm cludiant rhanbarthol (CCRh) a sefydlwyd fel hynny. Drwy Fwrdd y Cyd, roedd gan Taith fandad i gyflawni ar ran ei awdurdodau partner ac, mewn gwirionedd, roedd ei bartneriaid wedi dirprwyo'r grym i weithredu ar eu rhan ynglŷn â materion cludiant rhanbarthol. Roedd Taith yn cynhyrchu’r cynllun cludiant rhanbarthol a dogfennau cysylltiedig, cynnig cyngor i Lywodraeth Cymru ac yn gweinyddu rhaglenni cyllid cyfalaf ar ran awdurdodau Gogledd Cymru. Adolygwyd ei gyfansoddiad am y tro ddiwethaf yn 2013 er mwyn caniatáu i Taith reoli a chyflwyno’r hyn a oedd yna drefniadau newydd ar gyfer ariannu bysiau.

Ym mis Ionawr 2014, diddymodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant gyfrifoldebau cydlynu, cynllunio rhanbarthol a monitro cyfalaf y CCRh. Roedd hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o waith Taith. Wedi hynny, mae awdurdodau wedi cydweithio i gynhyrchu cynlluniau cludiant lleol olynol heb yr angen am y Cydbwyllgor Taith.

Deilliodd y penderfyniad ar yr adeg honno i barhau'n ffurfiol â Taith o'r posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol iddo gynhyrchu gwaith tebyg yn y dyfodol. Wedi hynny, rhoddodd Bwrdd Taith ystyriaeth i'r materion hyn a dod i'r casgliad bod costau a gofynion archwilio cynnal y Cydbwyllgor yn fwy na'i werth a'i ddefnyddioldeb posibl yn y dyfodol. O ganlyniad, cytunodd y Bwrdd Taith y byddai'r Cydbwyllgor yn cael ei ddirwyn i ben cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Trefniadau ar gyfer y Dyfodol**

Mae'r angen am "lais" cludiant rhanbarthol i gefnogi twf economaidd yn parhau i fodoli. Argymhellodd Tasglu Cludiant Gogledd Cymru 2014 dan gadeiryddiaeth Lesley Griffiths, a chytunodd y Gweinidog wedi hynny, y dylai ymyraethau o hynny allan, a lle bo hynny'n bosibl, gael eu cydlynu'n rhanbarthol drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), sydd bellach yn cael eu cyflawni drwy ffrwd waith Cysylltedd ac Isadeiledd BUEGC. Cydnabu'r ffrwd waith yr angen i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad deiliaid portffolios cludiant perthnasol, o ystyried nad oedd gan ran fwyaf o aelodau'r BUEGC y cyfrifoldeb portffolio hwn.

Yn unol â hynny, mae Cadeirydd BUEGC wedi cynnig y dylid sefydlu Fforwm Cludiant Ymgynghorol o dan BUEGC i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Byddai'r Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn neu hyd at bob chwarter, yn dibynnu ar y galw, i gefnogi'r ffrwd waith Cysylltedd ac Isadeiledd ac i sicrhau perthynas waith effeithiol rhwng y timau priffyrdd a chludiant ym mhob Awdurdod.

Ni fyddai angen cyfansoddiad ffurfiol ar gyfer trefniant o'r fath a gellid ei sefydlu yn anffurfiol. Byddai'n sicrhau bod Aelodau'n parhau i gael cyfrannu at faterion cludiant strategol ledled y rhanbarth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Fforwm Cludiant yn helpu cefnogi'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol, sy'n flaenoriaeth gorfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Dim costau uniongyrchol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed AEC wedi'i lenwi fel atodiad i'r adroddiad**

Dim angen.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Dim.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid yw'r Cyngor bellach yn cyfrannu’n ariannol i Fwrdd ar y Cyd Taith. Nid yw'r trefniadau newydd yn cael unrhyw effaith ar gyllidebau uniongyrchol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Risg cyfyngedig i'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Trefniant anffurfiol i’r dyfodol yn unig.